



# Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru National Academy for Educational Leadership Wales

Cofnodion/Nodiadau Gweithredu o Gyfarfod Bwrdd 10 Medi 2019

## Yn bresennol

Sue Davies (SD) (Cadeirydd)  
Huw Foster Evans (HFE) (Prif Weithredwr)  
Claire Williams (CW)  
Mike James (MJ)  
Martin Price (MP)  
Davina Payne (DP) (drwy gyswllt ffôn)  
Michaela Renkes (MR) (Sylwedydd Llywodraeth Cymru)  
John Graystone (JG)  
Rosemary Jones OBE (RJ)  
Olivia Stemmer (OS) (Ysgrifenyddiaeth)

## Ymddiheuriadau Paul Marshall (PM)

- 1. Croeso, gwrthdaro buddiannau, cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol a chadarnhau cofnodion i'w cyhoeddi*

Agorodd SD y cyfarfod a chroesawu a chyflwyno pawb wrth y bwrdd. Cyhoeddodd SD ymddiheuriadau gan Paul Marshall.

Nid oedd unrhyw achos o wrthdaro buddiannau.

**Mae SD am gywiro cofnod 1 – angen newid 'bwrdd cyffredin' i 'bwrdd cyfredol'.**

- 2. Cyflwyno cyfrifon diwedd blwyddyn*

Cyflwynodd HFE y cyfrifon diwedd blwyddyn.

Eglurodd HFE fod nifer y staff yn cael ei nodi fel 0 gan fod yr holl weithwyr wedi'u cyflogi gan Lywodraeth Cymru nes mis Ebrill 2019. Eglurodd HFE hefyd mai endid budd cyhoeddus yw'r Academi Arweinyddiaeth ac nad yw'n masnachu o gwbl felly dylai gael ei heithrio o'r dreth gorfforaethol. Mae'r Academi Arweinyddiaeth wedi cysylltu â CThEM am gadarnhad ac mae'n aros am ateb.

**Hoffai JG weld nodyn yn cael ei ychwanegu am niferoedd staff i egluro bod staff yr Academi yn cael eu cyflogi gan Lywodraeth Cymru hyd at 31 Mawrth 2019. Cytunodd y bwrdd i ofyn i'r cyfrifwyr ychwanegu hyn at y cyfrifon.**

### *3. Cyflwyniad ar adroddiad ISA 260 gan Swyddfa Archwilio Cymru*

Cafwyd cyflwyniad ar yr adroddiad Archwilio gan Jason Garcia a David Williams o Swyddfa Archwilio Cymru. Dywedodd Jason Garcia fod un eitem heb ddod i law sef llythyr gan y banc yn cadarnhau'r balans. Eglurodd y problemau a'r anghysonderau gyda'r cyfrifwyr a oedd wedi'u cywiro. Dywedodd fod y rheolwyr wedi derbyn yr archwiliad a bod cyfarfod wedi'i drefnu gyda'r Academi Arweinyddiaeth i drafod y cyfrifwyr. Dywedodd y byddai yna fwy o ffi am archwilio eleni gan fod yr archwiliad wedi cymryd mwy o amser yn sgil camgymeriadau'r cyfrifwyr. Bydd Jason Garcia angen i'r llythyr cynrychioli terfynol gael ei lofnodi gan HFE a SD a bydd angen ei ddychwelyd i Swyddfa Archwilio Cymru.

Gofynnodd MP a fydd yr adroddiad archwilio'n ddogfen gyhoeddus ac eglurodd Jason Garcia y bydd ac y gallai ymddangos ar wefan yr Archwilwyr. Gofynnodd SD i'r adroddiad archwilio fod yn ddwyieithog ar y wefan, a chytunodd Jason Garcia i hyn.

Dywedodd HFE fod yr Academi Arweinyddiaeth wedi trefnu cyfarfod gydag Advantage Accountants i drafod ein hanfodlonrwydd gyda'u hadroddiad. Eglurodd Jason Garcia y dylem holi am broses sicrhau ansawdd y cyfrifwyr.

Canmolodd Jason Garcia Kirsty Payne am ei gwaith caled gyda'r cyfrifwyr a'r archwilwyr ac am ei gwaith cyfathrebu.

### *4. Llythyr cynrychioli*

Eglurodd Jason Garcia fod angen lofnodi'r Llythyr Cynrychioli ar ôl i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo fel y gall yr archwilydd cyffredinol ei lofnodi. Bydd angen i HFE anfon e-bost ar fore 19 Medi i gadarnhau nad oes unrhyw beth wedi digwydd ers cyfarfod y bwrdd ar 10 Medi 2019 a fyddai'n newid ei farn y dylai datganiadau ariannol 2018-19 gael eu cymeradwyo fel ag y maent.

**Mae'r bwrdd yn dymuno cyflwyno proses cofrestru buddiannau flynyddol ar gyfer uwch reolwyr ac aelodau'r bwrdd i gofnodi unrhyw fuddiannau eraill a allai gael effaith ar yr Academi Arweinyddiaeth.**

**Cytunodd y bwrdd i gymeradwyo'r llythyr cynrychioli a'r cyfrifon diwedd blwyddyn.**

### *5. Ymateb i gwestiynau ar dwyll a thrafodion partiön cysylltiedig*

**Cytunodd y bwrdd i gymeradwyo'r cwestiynau ar dwyll a thrafodion trydydd partiön.**

### *6. Adroddiad yr Is-grŵp Cyllid/AD*

Rhannodd JG y cofnodion o gyfarfod yr is-grŵp Cyllid/AD ar 29 Awst a chyflwyno'r cynnig AD i'r bwrdd. Eglurodd MR y byddai angen cyflwyno unrhyw newidiadau mawr i bolisïau i'r uned cyrff cyhoeddus. **Cytunodd y bwrdd i'r cynnig fel y'i hargymhellwyd gan yr Is-grŵp Cyllid/AD. Mae SD yn dymuno dileu ei hymddiheuriadau o'r cofnodion gan nad yw'n aelod o'r is-grŵp.**

#### *7. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg*

Cyflwynodd MJ gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar 29 Awst. **Mae SD yn dymuno dileu ei hymddiheuriadau o gofnodion y cyfarfod gan nad yw'n aelod o'r pwyllgor.** Cytunodd MJ gyda phwynt RJ y bydd yn rhaid i'r ddau is-bwyllgor sicrhau ansawdd ei gilydd ac y bydd rhaid i'r Cadeiryddion benderfynu ar broses. Eglurodd MJ fod y pwyllgor wedi cael y dasg o chwilio am archwilwyr mewnol a chyflwynodd y newidiadau arfaethedig i'r Gofrestr Risg. **Cytunodd y bwrdd i ddiwygio'r gofrestr risg.**

**Mae MR am i'r Academi Arweinyddiaeth nodi'r risgiau allweddol i'w rhannu gyda Llywodraeth Cymru.**

Trafododd y bwrdd sut i sicrhau bod darparwyr cymeradwy yn cynnwys neges yr Academi Arweinyddiaeth yn eu darpariaeth. Cytunodd y grŵp y dylent roi cyflwyniad am yr Academi wrth ddarparu eu darpariaethau. Eglurodd MR fod y cyhoedd yn gweld yr Academi Arweinyddiaeth fel academi i helpu ysgolion yn unig o bosibl, yn hytrach na phob sector o fyd addysg.

Mae SD am i aelodau'r bwrdd feddwl am syniadau am sut gall yr Academi Arweinyddiaeth fod yn fwy gweladwy.

Cwestiynodd JG rôl y Cymdeithion a sut gallent ledaenu neges yr Academi Arweinyddiaeth yn y system ehangach.

#### *8. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol*

Cyflwynodd HFE adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol.

Eglurodd HFE fod John Kendall a Gwyn Tudur (Cymdeithion C1) wedi rhoi'r gorau i'w gwaith gyda'r Academi yn sgil pwysau cynyddol yn yr ysgol. **Hoffai'r bwrdd anfon llythyr yn diolch i John Kendall a Gwyn Tudur am eu gwaith caled gyda'r Academi.**

Mae MJ yn teimlo nad yw'r Academi Arweinyddiaeth yn gwneud digon gyda chydweithwyr yn Lloegr. Eglurodd MR fod gan Loegr system wahanol iawn a bod y safonau'n cael eu mesur yn wahanol. Mae MP yn dymuno i'r Academi edrych ar y gwahaniaeth rhwng systemau Addysg Cymru a Lloegr, i weld sut i wella cysylltiadau.

#### *9. Archwiliad Sgiliau ac Amrywiaeth*

Agorodd RJ drafodaeth ar yr archwiliad Sgiliau ac Amrywiaeth a diolchodd i bawb a fu'n helpu i baratoi'r ddogfen. Diolchodd SD i RJ a JG am eu gwaith. Mae SD am i arfarniadau holl aelodau'r bwrdd gael eu cwblhau erbyn diwedd Hydref. Mae Kirsty Payne wedi cytuno i nodi dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer holl aelodau'r bwrdd. Soniodd RJ nad yw adran Amrywiaeth yr archwiliad wedi'i baratoi'n benodol ar gyfer yr arfarniad. Eglurodd SD na fydd unrhyw wybodaeth o'r archwiliad yn cael ei darparu i'r cyhoedd. **Mae JG am weld y gofrestr buddiannau'n cael ei hanfon i aelodau'r bwrdd ynghyd â'r cofnodion.** Diolchodd HFE i'r bwrdd am gytuno i gwblhau eu harfarniadau.

**Mae RJ am i agendâu'r dyfodol fod yn ddwyieithog mewn un ddogfen yn hytrach na chael dwy ddogfen ar wahân ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg.**

#### *10. SharePoint*

Cyflwynodd Kirsty Payne SharePoint i'r bwrdd a dangos sut mae ei ddefnyddio.

#### *11. Gwybodaeth arfarnu flynyddol y bwrdd*

Agorodd SD drafodaeth ar y wybodaeth arfarnu, **cytunodd y bwrdd i newid y lliw i "liw Academi"**. Eglurodd SD fod y geiriau yn yr arfarniad wedi dod o'n llythyr cylch gwaith. Eglurodd HFE nad oes rhaid i'r ysgrifennu fod yn ffurfiol, gan mai sail ar gyfer trafodaeth gyda Sue ydyw. Cytunodd y bwrdd i lenwi'r ffurflenni cyn yr arfarniadau, a bydd Kirsty Payne yn trefnu dyddiadau ar gyfer y cyfarfodydd.

#### *12. Eitemau agendâu'r dyfodol a chau*

Mae SD am gael cyfarfod bwrdd yn ysgol Huw Powell eleni. Gofynnodd MR a yw SD yn credu bod angen hyfforddiant diweddarau neu adolygiad, gan nad oedd rhai aelodau wedi ymuno â'r bwrdd ar yr un pryd ag eraill. Cytunodd SD i ychwanegu hyn at agenda cyfarfod yn y dyfodol. Ar ôl yr arfarniadau bydd SD yn edrych am unrhyw feysydd sydd angen eu datblygu a gweld a oes angen hyfforddiant penodol ar unrhyw un.

**Hoffai RJ wahodd Tegwen Ellis i siarad am ei Doethuriaeth Addysgol yn un o gyfarfodydd y bwrdd yn y dyfodol.**

Cynhelir cyfarfod nesaf y bwrdd ar 7 Tachwedd yn swyddfa'r Academi Arweinyddiaeth.

Diolchodd SD y bwrdd am eu cyfraniad a chau'r cyfarfod am 12:30.

## Log Camau Gweithredu

Rhif		Cyfrifol	Erbyn pryd	Statws
12	Yr Academi Arweinyddiaeth i ystyried datblygu rhai hanesion achosion	HFE	Medi 2019	Parhaus
47	Lluniau newydd o'r Bwrdd i'w tynnu ym Medi 2019	KP	Medi 2019	Cwblhawyd
83	Gwiro'r broses penodiadau cyhoeddus ar gyfer aelodau'r bwrdd yn y dyfodol	TW	Medi 2019	
84	Adolygiad blynyddol o'r cylch gorchwyl	SD	Gorffennaf 2020	
87	Creu adroddiad i'r bwrdd ar y llwybr arloesedd unwaith y bydd pob galwad wedi'i chwblhau am pwy sydd wedi derbyn cyllid	HFE	Medi 2019	Cwblhawyd
95	Creu fformat eitemau agenda safonol ar gyfer is-grwpiau	Aelodau'r Bwrdd/is-grwpiau	Awst 2019	Cwblhawyd
96	Cywiros cam gweithredu #5 o'r cofnodion blaenorol	OS	Medi 2019	Cwblhawyd
97	Ychwanegu nodyn i'r adroddiad blynyddol yn egluro bod staff yr Academi yn cael eu cyflogi gan Lywodraeth Cymru hyd at Ebrill 2019	KP	Medi 2019	Cwblhawyd
98	Creu ffurflen cofrestr buddiannau ar gyfer uwch reolwyr ac aelodau'r bwrdd	KP	Tachwedd 2019	Cwblhawyd
99	Dileu ymddiheuriadau SD o gofnodion yr is-grŵp	KP	Tachwedd 2019	Cwblhawyd
100	Anfon cofrestr risg ddiwygiedig y bwrdd	KP	Tachwedd 2019	Cwblhawyd
101	Nodi risgiau allweddol i'w rhannu â Llywodraeth Cymru	All	Tachwedd 2019	
102	Anfon llythyr diolch at Gwyn Tudur a John Kendall	KP	Tachwedd 2019	Cwblhawyd
103	Darparu agendâu'r dyfodol yn ddwyieithog mewn un ddogfen	KP	Tachwedd 2019	Cwblhawyd
104	Newid lliw dogfen wybodaeth arfarnu flynyddol y bwrdd	KP	Tachwedd 2019	Cwblhawyd
105	Agenda Tegwen Ellis i fynychu cyfarfod bwrdd yn y dyfodol i gyflwyno ei Doethuriaeth hyd yn hyn	KP	Mawrth 2020	

**DS. Mae'r rhifau sydd ar goll wedi'u gweithredu**